

Argymhellion Adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Graddau Gwahanu? Effaith Brexit ar Addysg Uwch ac Addysg Bellach

Argymhelliad 1

Dylai Llywodraeth Cymru fynd ati'n rhagweithiol, drwy gyfrwng unrhyw Fil Mewnfudo a fydd gan y DU yn y dyfodol, i fynnu pwerau gweithredol ar gyfer Gweinidogion Cymru fel bod modd iddynt bennu rheolau mewnfudo o strwythur gwahanol, yn benodol ar gyfer myfyrwyr a staff academiaidd yng Nghymru. Nid yw Michelle Brown AC yn cytuno â'r argymhelliad hwn.

Cytuno mewn egwyddor.

Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno bod angen system addysg uwch yng Nghymru sy'n caniatáu i sefydliadau barhau i gydweithredu'n rhydd a gweithio gyda'i gilydd ledled Ewrop a thros y byd. System sy'n galluogi ein myfyrwyr i deithio ac astudio mewn gwledydd eraill gan sicrhau bod Cymru yn parhau i fod yn lle sy'n croesawu pobl dramor a ddaw yma i ddysgu ac i weithio. Rhaid i'r cydweithio hwn barhau a byddwn ni'n gweithio gyda phrifysgolion i wneud yn siŵr bod y pontydd hyn yn cael eu cynnal a'u cryfhau yn y blynyddoedd i ddod.

Mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i raglen ymgysylltu 12 mis ar eu papur gwyn ar y system mudo - "The UK's future skills-based immigration system". Mae Llywodraeth Cymru yn edrych ar y canlyniadau tebygol a'r effeithiau economaidd o gyflwyno'r newidiadau arfaethedig i Gymru a byddwn yn cyflwyno ein tystiolaeth ein hunain ar ofynion y farchnad lafur yng Nghymru, gan gynnwys y trothwy priodol o ran cyflogau. Ein nod yw sicrhau nad yw economi Cymru yn cael ei heffeithio'n andwyol gan system mudo gyfyngol a bod Prifysgolion Cymru yn gallu bodloni eu hanghenion at y dyfodol o ran niferoedd staffio a myfyrwyr.

Gan ystyried pwysigrwydd dinasyddion yr UE o ran ein ffyniant economaidd, yn ogystal â'r cysylltiadau rhwng mudo a'n cyfrifoldebau datganoledig ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus fel addysg, addysg uwch, iechyd a llywodraeth leol, rydyn ni wedi ceisio cael sicrwydd gan Lywodraeth y DU y byddwn ni'n cael cyfle i rannu ein safbwyntiau â nhw ac y byddant yn cael eu hystyried cyn i Lywodraeth y DU lunio ei pholisi mudo yn y dyfodol.

Mae'n siomedig nad yw Llywodraeth y DU wedi gallu gwneud hynny.

Argymhelliad 2

Rhaid i Lywodraeth Cymru gomisiynu prosiect ymchwil i bennu beth sy'n cymhell myfyrwyr o'r UE a myfyrwyr rhyngwladol eraill i ddod i Gymru i astudio, gan adrodd yn ôl yn ystod y 6 mis nesaf. Dylai'r ymchwil hwn ystyried yr effaith y bydd dileu'r

grant ffioedd dysgu yn ei chael ar recriwtio myfyrwyr o'r UE. Yn ogystal, dylai ddatblygu ystod o gynigion er mwyn helpu prifysgolion i ddenu myfyrwyr rhyngwladol i astudio yng Nghymru, gan gynnwys gwerthusiad o gymhellion ariannol.

Derbyn mewn egwyddor.

Gall Llywodraeth Cymru helpu i hyrwyddo Cymru a safonau ac ansawdd uchel ein prifysgolion, gan weithio gyda Phrifysgolion Cymru, Cyngor Prydeinig Cymru, Croeso Cymru a phartneriaid eraill i gefnogi'r brand "Study in Wales" a helpu i ddenu myfyrwyr o'r UE a myfyrwyr rhyngwladol eraill i astudio yng Nghymru. Er mwyn cefnogi'r gwaith hwn, rydyn ni hefyd yn darparu cyllid gan y rhaglen Cymru Fyd-eang a Cymru Fyd-eang II.

Fel cyrff annibynnol ac ymreolaethol, mater ar gyfer y prifysgolion eu hunain yw recriwtio. Felly, byddwn yn disgwyl i'r sector ddeall ei farchnadoedd a gwneud gwaith ymchwil er mwyn deall disgwyliadau myfyrwyr yn ogystal â bod yn ymwybodol o werth cymhellion. Yn wir, cyhoeddodd Universities UK y papur "[A 'No Deal' BREXIT: Implications for universities and minimising risk](#)" ym mis Rhagfyr 2018. Mae'r papur hwn yn amlinellu'r camau y mae angen i Lywodraeth y DU eu cymryd i liniaru'r risgiau sy'n deillio o gael Brexit heb gytundeb a'r gweithredoedd lliniarol y dylai'r prifysgolion eu hystyried.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y bydd y sector Addysg Uwch yn parhau i wynebu heriau yn 2019-20, sy'n cael eu dwysau gan yr ansicrwydd parhaus sy'n ymwneud â'r DU yn gadael yr UE. Felly, rwy'n disgwyl y bydd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) yn helpu i roi rhywfaint o sicrwydd bod y sector yn barod i adael yr UE a'u bod yn gallu helpu'r Llywodraeth i ddatblygu presenoldeb Cymru yn Ewrop ac yng ngweddill y byd.

Argymhelliad 3

Rhaid i Lywodraeth Cymru gyhoeddi gwerthusiad o'r rhaglen Cymru Fyd-eang I. Wrth ymateb i'r adroddiad hwn, rhaid i'r Llywodraeth ddangos sut mae unrhyw wersi a ddysgwyd wedi cael eu trosglwyddo i'r rhaglen newydd, Cymru Fyd-eang II.

Derbyn

Mae'n un o amodau'r cyllid bod y prosiectau a'r rhaglenni y mae'n eu cefnogi'n cael eu gwerthuso. Cafodd Llywodraeth Cymru Adroddiadau Blynyddol ar effeithiolrwydd y rhaglen Cymru Fyd-eang I ac ar effeithiolrwydd yr ymyriadau wrth ddatblygu cysylltiadau rhwng Sefydliadau Addysg Uwch Cymru a chyfatebwyr ledled y byd, a hynny fel rhan o'r Cytundeb Grant gydag Universities UK International. Mae'r adroddiadau wedi'u hatodi yn Atodiad B.

Roedd Cymru Fyd-eang I yn rhaglen llawer llai na'r rhaglen Cymru Fyd-eang II ac roedd yn canolbwyntio ar ddod o hyd i farchnadoedd blaenoriaeth a defnyddio cynadleddau Byd-eang i hyrwyddo Cymru fel cyrchfan i fyfyrwyr rhyngwladol ddewis astudio yma. Roedd hi'n gwneud hynny drwy hyrwyddo'r brand Study in Wales. Mae Cymru Fyd-eang II yn ceisio ehangu'r gweithgareddau a gafodd eu cyflawni drwy'r rhaglen flaenorol. Bydd hyn yn golygu cysylltu mwy â'r gwledydd blaenoriaeth sydd wedi'u nodi (UDA a Vietnam), gan nodi rhagor o farchnadoedd blaenoriaeth ac ehangu gweithgareddau fel datblygu rhaglenni ysgoloriaeth gyda'r gwledydd hynny. Bydd hefyd yn cynnwys adnewyddu'r brand Study in Wales a hyrwyddo hwnnw yn ehangach, gan gynnwys yn Ewrop ac mewn marchnadoedd mewnol yn y DU.

Argymhelliad 4

Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod gwefan Study in Wales a'r deunydd marchnata, sy'n rhan o'r rhaglen Cymru Fyd-eang, yn cael eu diweddarau a'u hadnewyddu ar unwaith, yn bennaf i gynnwys gwybodaeth am y cyllid sy'n cael ei sicrhau i fyfyrwyr o'r UE yn 2019/20.

Derbyn

Bydd Llywodraeth Cymru yn sefydlu is-grŵp marchnata Cymru Fyd-eang i adolygu'r brand Study in Wales, y wefan a chynnwys a deunyddiau marchnata yn y dyfodol. Bydd yr is-grŵp yn ystyried unioni'r brand Study in Wales yn well â brand y genedl 'Cymru Wales', yn ogystal ag ystyried y cyfle i fabwysiadu dull mwy unedig o hyrwyddo Cymru i'r byd.

Mae'r brand hynod lwyddiannus Cymru Wales eisoes wedi cael ei ddefnyddio wrth hyrwyddo Cymru o ran twristiaeth, masnach a buddsoddi, bwyd a diod ynghyd ag ymgyrchoedd recriwtio nyrsys a meddygon teulu. Y cam nesaf wrth ddatblygu'r brand Cymru Wales fydd darparu'r prosiect Porth Digidol a sicrhau rhagor o effaith ac integriad digidol. Bydd y prosiect hwn yn cynnwys lansio cyfres o lwyfannau gwe newydd ar gyfer Cymru yn 2019 (yn bennaf ar cymru.com), a bydd yn seiliedig ar ddull marchnata cynnwys sy'n flaenllaw yn y farchnad. Bydd yn canolbwyntio ar ymgysylltu straeon am Gymru sydd wedi'u hanelu at gynulleidfaoedd byd-eang. Bydd is-grŵp marchnata Cymru Fyd-eang yn ystyried cyfleoedd i unioni prosiect Porth Digidol Cymru â gwefan Study in Wales a buddsoddiadau mewn marchnata cynnwys yn y dyfodol.

Argymhelliad 5

Rhaid i Lywodraeth Cymru, fel rhan o'i hymateb i'r adroddiad hwn, egluro sut y mae'n sicrhau bod rhaglen Cymru Fyd-eang II yn cynnig manteision a chefnogaeth amlwg i'r prifysgolion hynny yng Nghymru sydd wedi gweld gostyngiad yn y galw gan fyfyrwyr o'r UE.

Derbyn

Mae'r rhaglen Cymru Fyd-eang II yn gwerthuso'r gweithgareddau y mae'n eu cefnogi, a hynny drwy system sy'n rhan o'i dyluniad. Un ffocws amlwg yw ehangu'r brand Study in Wales i Ewrop er mwyn hyrwyddo Cymru fel cyrchfan astudio. Y nod yw cefnogi'r holl Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru er mwyn parhau i ddenu myfyrwyr Ewropeaidd mewn sefyllfa ar ôl Brexit ac edrych ar farchnadoedd anghyfarwydd fel Vietnam a chanolbarth gorllewin yr Unol Daleithiau.

Argymhelliad 6 Dylai Llywodraeth Cymru, fel rhan o'i hymateb i'r adroddiad hwn, ddarparu gwybodaeth yng nghyswllt yr effaith ddisgwyliedig ar y rhaglen Cymru Fyd-eang II, gan gynnwys nifer y myfyrwyr disgwyliedig a manteision mesuradwy eraill.

Derbyn

Mae Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru yn gyfrifol am fonitro cyflawniad y prosiect Cymru Fyd-eang II, gan adrodd i Lywodraeth Cymru ar y gwariant, yr allbynnau a'r canlyniadau, fel y nodir yng nghynnig y Prosiect. Mae gofyn iddo ddarparu adroddiadau blynyddol ar sail academaidd a phedwar diweddariad naratif interim ar y cynnydd sydd wedi'i wneud tuag at y canlyniadau y cytunwyd arnynt a gweithgareddau'r prosiect. Mae hyn yn cynnwys cynyddu cyfran Cymru o'r farchnad yng nghyswllt y myfyrwyr o'r UE a'r myfyrwyr rhyngwladol y mae'r DU yn eu recriwtio. Hefyd, mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targed i ddyblu nifer y myfyrwyr o Gymru sy'n symud tuag allan yn ystod y tymor hwn yn y Cynulliad. Bydd Cymru Fyd-eang yn rhan o'r gwaith hwnnw hefyd.

Argymhelliad 7

Rhaid i Lywodraeth Cymru weithio gyda'r sector addysg uwch a'r sector addysg bellach i osod a phrofi trefniadau cyllido a fydd yn sicrhau na fydd myfyrwyr ERASMUS+ yn wynebu unrhyw ansicrwydd neu amhariad ariannol, yn enwedig y rheini sy'n dilyn graddau ieithoedd modern, gan ystyried yr amodau sydd wedi'u hatodi i warantiad y Trysorlys ar hyn o bryd. Rhaid i Lywodraeth Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar ôl cwblhau hynny.

Derbyn mewn egwyddor.

Yn amlwg, nid yw'r ansicrwydd parhaus sy'n ymwneud â dull Llywodraeth y DU o ran Brexit yn ddelfrydol ac mae'r ansicrwydd hwnnw'n lledu i sefyllfa ariannol a chyllid Erasmus+. Caiff cyfraniad ariannol y DU i'r UE ei ddal gan Drysorlys ei Mawrhydi, nid gan Lywodraeth Cymru. Er mwyn gallu darparu cynllun yn lle Erasmus heb gael gwared â rhaglenni gweithgareddau eraill, byddai angen i'r cyllid hwnnw gael ei drosglwyddo i ni gan Drysorlys ei Mawrhydi. Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn glir ynghylch yr angen am addasiad Grant Bloc i dalu am y cyllid Ewropeaidd a fyddai wedi dod i Gymru; nid yw hyn wedi cael ei ddatrys.

Os na fydd Llywodraeth y DU yn gallu sicrhau cyfranogiad yn Erasmus+ ac yn methu cynnig cynllun yn lle hynny yn y DU, yna byddai'n rhaid i Lywodraeth Cymru edrych yn ofalus iawn ar yr ystod bresennol o weithgareddau Erasmus+ ac ystyried yr hyn y gellir ei gyflawni â'r adnoddau sydd ar gael i ni.

Mae Erasmus+ yn rhaglen sydd yn berthnasol i'r DU gyfan ac mae hi'n cael ei gweinyddu gan yr Asiantaeth Genedlaethol, sef partneriaeth rhwng y Cyngor Prydeinig ac Ecorys ar ran yr Adran Addysg yn Lloegr a Gweinyddiaethau Datganoledig Cymru, Gogledd Iwerddon a'r Alban. Mae swyddogion yn parhau i gynnal trafodaethau rheolaidd â chyfatebwyr yng nghyswllt gweithredu Erasmus+ o dan delerau gwarantiaid Trysorlys ei Mawrhydi. Hefyd maent yn cynnal trafodaethau ar gynlluniau wrth gefn ar gyfer parhau i ddarparu'r rhaglen wrth i'r DU adael yr UE, gan gynnwys ar gyfer y rheini sy'n astudio graddau ieithoedd modern.

Argymhelliad 8

Rhaid i Lywodraeth Cymru gomisiynu prosiect ymchwil pellach, gan ddatblygu'r gwaith diweddar a lywiodd y cynllun treialu symudedd rhyngwladol, a hynny er mwyn llunio darlun manylach o effaith symudedd rhyngwladol ar allbynnau myfyrwyr o grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli yng Nghymru, gan adrodd yn ôl i'r Pwyllgor cyn pen 6 mis.

Derbyn

Ym mis Ionawr 2018, fe wnaeth Llywodraeth Cymru benodi OB3 Research, ar y cyd â Sefydliad Ymchwil, Data a Methodoleg Gymdeithasol ac Economaidd Cymru (WISERD) Prifysgol Caerdydd, i ymgymryd ag astudiaeth gwmpasu gyda'r brif nod o ddarparu tystiolaeth i gefnogi'r gwaith o ddatblygu cynllun treialu astudio dramor.

Roedd y gwaith maes yn cynnwys adolygiad llenyddiaeth o symudedd myfyrwyr rhyngwladol ac adolygiad o'r darpariaethau cyllid presennol yng Nghymru a thramor. Cynhaliwyd cyfweiliadau gyda swyddogion Llywodraeth Cymru a chynrychiolwyr o sefydliadau rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys Sefydliadau Addysg Uwch. Hefyd, cynhaliwyd cyfweiliadau gyda myfyrwyr tramor presennol a rhai a oedd yn arfer astudio dramor, yn ogystal â grwpiau ffocws a oedd yn cynnwys myfyrwyr sydd â diddordeb mewn astudio dramor.

Er bod yr astudiaeth wedi canfod nad oes digon o ddata i allu cyfrif nifer yr holl fyfyrwyr sy'n huanu o Gymru ac sy'n astudio gradd dramor, mae'r adroddiad yn dadansoddi datganiadau niferoedd Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch dros bedair blynedd (2013-17) o ran y myfyrwyr o Gymru sy'n astudio yn y DU ac sydd wedi astudio dramor am hyd at flwyddyn.

Rydyn ni'n gwybod bod y nifer o fyfyrwyr sy'n huanu o Gymru ac sy'n gwirfoddoli neu ar brofiad gwaith dramor yn dal i fod yn isel, sef llai na 2 y cant o gyfanswm poblogaeth y myfyrwyr sy'n huanu o Gymru. Yn wir, mae'r adroddiad a gomisiynwyd

yn gynharach eleni gan OB3 Research, ar y cyd â Sefydliad Ymchwil, Data a Methodoleg Gymdeithasol ac Economaidd Cymru (WISERD), yn nodi bod y dystiolaeth yn awgrymu bod myfyrwyr sy'n hangu o Gymru yn llai tebygol o astudio dramor na'u cyfatebwyr yn y DU ac yn Ewrop, ynghyd â myfyrwyr rhyngwladol yn gyffredinol. Mae galw cudd yng Nghymru yn debygol o fod yn isel ac yn llawer is na 200 y flwyddyn.

Bydd y cynllun treialu ei hun, ynghyd â'r gwerthusiad ohono, yn rhoi cyfle i ni brofi bod y galw drwy gynnydd cyfnodau astudio byr o bosib yn fwy deniadol i'r myfyrwyr hynny a fyddai fel arall yn dewis peidio ag astudio dramor am gyfnod hirach. Yn wir, mae adroddiad OB3 yn nodi bod 'twf cyson wedi bod yn nifer gyffredinol y myfyrwyr sy'n hangu o Gymru ac sy'n astudio, yn gwirfoddoli neu'n ymgymryd â phrofiad gwaith dramor yn ystod y pedair blynedd ddiwethaf. Mae'r niferoedd wedi dyblu bron, o 796 yn 2013/14 i 1,430 yn 2016/17, a hynny ar adeg pan roedd poblogaeth gyffredinol y myfyrwyr sy'n hangu o Gymru ac sy'n astudio mewn Sefydliadau Addysg Uwch wedi gostwng 10 y cant.' Mae'r cynllun treialu yn rhoi cyfle i ni adeiladu ar hyn.

Argymhelliad 9

Rhaid i Lywodraeth Cymru barhau i roi pwysau ar Lywodraeth y DU i sicrhau bod buddsoddiadau rhanbarthol yn y dyfodol yn cael eu datganoli i Gymru ac i sicrhau ei bod Llywodraeth y DU yn bwrw ymlaen â'i hymrwymiad i sicrhau na fydd buddsoddiadau rhanbarthol yn y dyfodol yn rhan o gyllidebau craidd Cymru ac y byddant yn aros yn rhai amlflwydd o ran natur.

Derbyn

Mae safbwynt Llywodraeth Cymru yn glir wrth ddatgan na ddylai Cymru fod yn waeth ei byd o gwbl ar ôl Brexit. Fe wnaethom lansio ein papur Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru ar ôl papur Brexit ar 14 Rhagfyr 2017, sy'n datblygu ein syniadau ar gyfer dyfodol y polisi buddsoddi rhanbarthol yng Nghymru. Byddwn yn parhau i roi pwysau ar Lywodraeth y DU er mwyn cael sicrwydd y bydd pob ceiniog o'r £370m y mae Cymru ar hyn o bryd yn ei gael bob blwyddyn gan Gronfeydd Strwythurol a Buddsoddi yr UE yn cael ei ddisodli gan Lywodraeth y DU fel addasiad parhaol am i fyny i gyllideb Llywodraeth Cymru.

Argymhelliad 10

Rhaid i Lywodraeth Cymru weithio'n agos gyda'r sector addysg uwch a'r sector addysg bellach wrth ddatblygu unrhyw gynigion buddsoddi rhanbarthol, i sicrhau bod y rhan allweddol sydd gan brifysgolion a cholegau o ran lleihau anghydraddoldeb a chynyddu cynhyrchiant yn cael ei hystyried.

Derbyn

Fe wnaeth Llywodraeth Cymru sefydlu'r Gweithgor Brexit Addysg Uwch ym mis Medi 2016 i rannu dealltwriaeth a darparu cyngor ar oblygiadau Brexit. Erbyn hyn mae hwn yn cynnwys cynrychiolaeth o'r sector addysg bellach.

Rydyn ni'n gwerthfawrogi'r cyfraniad i'r grŵp hwn a byddwn ni'n sicrhau, drwy gyfrwng y grŵp hwn a'n hymgysylltiadau ehangach â'r sectorau, y bydd eu safbwyntiau ar amrywiaeth o faterion, gan gynnwys lleihau anghydraddoldeb a chynyddu cynhyrchiant, yn cael eu hystyried yn briodol.

Argymhelliad 11

Rhaid i Lywodraeth Cymru ymrwmo i weithio ar y cyd â'r sector addysg bellach er mwyn llunio a datblygu cynllun ar y cyd, a fydd wedi'i ariannu gan gynnig i Gronfa Bontio'r UE ac yn ystyried yr anghenion rhanbarthol amrywiol, a hynny er mwyn nodi ac ymateb i unrhyw alw sy'n newid o ran sgiliau yn y sectorau hynny sydd fwyaf tebygol o wynebu aflonyddwch yn sgil Brexit.

Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi ac yn cydnabod y rhan bwysig sydd gan Bartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol o ran cynhyrchu deallusrwydd rhanbarthol o dan arweiniad cyflogwyr. Mae Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol yn cyflwyno adroddiadau blynyddol i Lywodraeth Cymru sy'n tynnu sylw at flaenoriaethau rhanbarthol ar gyfer cyflogadwyedd a sgiliau, yn seiliedig ar anghenion cyflogwyr. Mae'r dull hwn yn galluogi Llywodraeth Cymru i unioni'r sgiliau rhanbarthol sy'n cael eu darparu â chyfleoedd buddsoddi a thwf, a hynny fel rhan o symudiad i roi dull strategol newydd ar waith yng nghyswllt cynllunio a chyllido ôl-16.

Mae Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol hefyd yn darparu dealltwriaeth o sgiliau strategol sy'n sail i Fargeinion Dinesig a Cheisiadau Twf. Roedd "Yr Adroddiad Annibynnol ar Lywodraethu Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol yng Nghymru" gan Dr John Graystone (Mawrth 2018) yn argymhell bod y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol yn aros yn annibynnol o ran capasiti cynghori Llywodraeth Cymru ac yn argymhell bod y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol yn dal i weithredu fel cyrff hyd braich. Mae hyn yn rhoi rôl allweddol iddynt i ddarparu arweiniad a chyngor annibynnol i Lywodraeth Cymru yng nghyswllt nodi anghenion sgiliau rhanbarthol. Mae hwn yn un o egwyddorion sylfaenol y dull newydd ar gyfer cyllido a chynllunio strategol ôl-16, sy'n canolbwyntio ar y cysyniad "ar sail galw".

Bydd Llywodraeth Cymru yn gofyn i Bartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol ymgynghori'n agos â'u rhwydweithiau cyflogwyr er mwyn llywio ein gwaith ar effeithiau Brexit ar sectorau sydd o bwys rhanbarthol.

Mae fy swyddogion wrthi'n datblygu cynigion ar gyfer cyfres o brosiectau sgiliau er mwyn helpu i feithrin cadernid Cymru er mwyn iddi gael ei hystyried i gael

cefnogaeth gan Gronfa Bontio'r UE. Bydd y gwaith hwn yn cael ei lywio drwy ymgysylltu'n uniongyrchol â'n rhanddeiliaid.

Argymhelliad 12

Rhaid i Lywodraeth Cymru gydnabod y pwysigrwydd sylfaenol sydd gan ymchwil ac arloesi i ffyniant Cymru a chydabod y perygl cynhenid sy'n gysylltiedig â bod ar ei hôl hi o gymharu â Lloegr a'r Alban wrth ariannu'r gweithgareddau hyn mewn sefyllfa hynod gystadleuol. Felly, rhaid i Lywodraeth Cymru fynd ati'n syth i ddechrau ariannu'r argymhellion sydd wedi'u gwneud gan yr Athro Reid yn ei adolygiad.

Derbyn yn rhannol.

Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn canfyddiadau ac argymhellion adolygiad Reid mewn egwyddor.

Dyma'r prif negeseuon y mae Llywodraeth wedi'u cael o'r adolygiad ac sydd wrthi'n cael eu datblygu:

- cynyddu gwelededd a dylanwad ymchwil Cymru ac, yn benodol, dal ati gyda "phresenoldeb pwrpasol yn Llundain i hyrwyddo Arloesi ac Ymchwil yng Nghymru"
- sicrhau lefelau cydradd o gyllid arloesi ac ymchwil heb ei neilltuo i Gymru, o gymharu â gweddill y DU, pan fo hynny'n bosib: Roedd hyn yn cynnwys cryfhau sylfaen ymchwil bresennol Cymru er mwyn galluogi ymchwilwyr o Gymru i gystadlu am gyfran fwy o gyllid newydd ar draws UKRI drwy weithredu argymhellion Diamond ar gyfer cyllid sy'n gysylltiedig ag ansawdd a chyllid cyfnewid gwybodaeth ac, yn ychwanegol at hynny, cymell ymchwilwyr o Gymru i ennill rhagor o gyllid o'r tu allan i Gymru.
- Cynyddu cysondeb ac effaith cyllid a chymorth ymchwil ac arloesi ar gyfer busnesau er mwyn sicrhau mwy o weithgareddau ac ymgysylltu'n fwy effeithiol â buddsoddwyr, y tu allan i Lywodraeth Cymru ar ôl Brexit.

Roedd yr argymhelliad cyntaf yn gofyn i Lywodraeth Cymru gynyddu gwelededd a dylanwad ymchwil Cymru drwy greu Swyddfa Ymchwil ac Arloesi Cymru newydd yn Llundain (WRILO) ac o ganlyniad uniongyrchol i hynny, rydyn ni wrthi'n recriwtio staff i ymgymryd â'r swyddi newydd. Mae gwir angen ailgydbwyso gwariant gwyddoniaeth, ymchwil ac arloesi ar draws y DU, gan annog twf rhanbarthol a mynd ar drywydd rhagor o fuddsoddiadau a chynhyrchiant. Rydyn ni'n cydnabod y bydd gan y tîm hwn rôl allweddol i'w chwarae wrth gynyddu gwelededd Cymru.

Mae'r ail a'r trydydd argymhelliad yn Adolygiad Reid yn ymwneud ag adnoddau'r dyfodol, y tu hwnt i gyllidebau presennol a bydd angen eu hystyried fel rhan o ystyriaethau cyllidebu'r dyfodol.